Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Deintyddfa P. A. Hawkins ac L. A. Griffiths

Dyddiad yr Arolygiad: 8 Tachwedd 2016

Dyddiad Cyhoeddi: 9 Chwefror 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk

ISBN Digidol 978-1-4734-8419-1
© Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 2

2. Cyd-destun .......... 3

3. Crynodeb .......... 4

4. Canfyddiadau .......... 5

Ansawdd Profiad y Claf .......... 5

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 8

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 14

5. Y Camau Nesaf .......... 16

6. Methodoleg .......... 17

Atodiad A .......... 19

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad yn Neintyddfa P. A. Hawkins ac L. A. Griffiths yn 11 Teras yr Orsaf, Caerffili, CF83 1HD, ar 8 Tachwedd 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Deintyddfa P. A. Hawkins ac L. A. Griffiths yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Deintyddfa P. A. Hawkins ac L. A. Griffiths yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal Caerffili yn ne Cymru. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae Deintyddfa P. A. Hawkins ac L. A. Griffiths yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn ogystal â gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys pum deintydd, wyth nyrs, a thri derbynnydd.

Darperir ystod o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod Deintyddfa P. A. Hawkins ac L. A. Griffiths yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion y gwnaethom ni siarad â nhw yn hapus gyda'r gwasanaeth a ddarperir
- Mae tîm y practis yn ymroddedig i sicrhau bod cleifion yn cael profiad cadarnhaol
- Roedd offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio yn y modd priodol
- Roedd dogfennaeth a gwybodaeth ar gael a oedd yn dangos bod yr offer pelydr-X yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel
- Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth gan uwch staff y practis.

Rydym yn argymell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Roedd angen gwirio'r cyffuriau a'r offer a ddefnyddir mewn achos brys yn fwy aml er mwyn sicrhau eu bod ar gael a'u bod yn ddiogel i'w defnyddio mewn achos o argyfwng gyda chlaf (llewygu)
- Roedd angen i'r gwiriadau ar gyfer yr offer sterileiddio fod yn fwy manwl
- Roedd angen i ddeintyddion wella agweddau ar eu proses o gadw cofnodion.
- Roedd angen adolygu rhai polisïau a gweithdrefnau.

# 4. Canfyddiadau

## *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwelsom fod cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a charedigrwydd gan dîm y practis. Dywedodd y cleifion a roddodd sylwadau eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir gan y practis.**

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Cafodd cyfanswm o 82 eu cwblhau a'u dychwelyd i ni. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

*'Rydw i bob amser wedi bod o'r farn bod y practis hwn yn groesawgar ac yn gymwynasgar iawn ac mae safon y gwasanaeth yn ardderchog.'*

*'Mae'r practis yn rhagori ar ei ddyletswydd gofal.'*

*'Rydw i bob amser yn fodlon ar fy mhrofiad; mae'r staff yn gymwynasgar. Dydw i erioed wedi profi unrhyw oedi gydag apwyntiadau ac mae'r triniaethau bob amser yn drylwyr ac yn cael eu hesbonio'n dda.'*

*'Mae gan fy nheulu a minnau'r hyder mwyaf yng ngallu proffesiynol y deintyddion, sy'n cael ei atgyfnerthu gan ein profiadau yma. Mae'r staff yn y practis bob amser wedi bod yn effeithlon ac maent yn ymddangos yn hapus yn eu gwaith. '*

Gwnaeth yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur awgrymu eu bod yn fodlon iawn ar y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd iddynt.

<u>Gofal gydag urddas</u>

Gwelsom fod y rhyngweithio rhwng tîm y practis a'r cleifion yn gyfeillgar, yn barchus, ac yn broffesiynol.

Roedd yr holiaduron cleifion a gwblhawyd yn dangos bod yr holl gleifion yn fodlon ar y gofal a gawsant. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod nhw'n teimlo eu bod yn cael croeso gan y practis. Ychwanegodd rhai cleifion eu sylwadau cadarnhaol eu hunain ynglŷn â lefel y gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn ac agwedd a dull gweithredu holl dîm y practis.

Roedd y practis yn darparu gwasanaethau preifat a thriniaethau'r GIG. Roedd gwybodaeth am gostau triniaethau deintyddol y GIG wedi'i harddangos yn y dderbynfa. Golygai hyn fod gwybodaeth ar gael i gleifion ynglŷn â faint y gallai eu triniaeth gan y GIG ei gostio. Nid oedd prisiau ar gyfer triniaethau deintyddol

preifat wedi’u harddangos yn y practis. Gwnaethom hysbysu'r practis bod rhaid iddo arddangos costau triniaethau deintyddol preifat er mwyn i gleifion eu gweld. Cytunodd y practis i roi hyn ar waith.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r practis arddangos rhestr brisiau ar gyfer triniaethau deintyddol preifat er mwyn i gleifion ei gweld.***

Roedd taflen wybodaeth y practis ar gael yn y dderbynfa i gleifion fynd â hi a'i darllen a oedd yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol am y practis.

Gofal amserol

Canfuom fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a roddodd sylwadau yn holiaduron AGIC wrthym nad oeddent wedi profi oedi o ran cael eu gweld gan ddeintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Dywedwyd wrthym y byddai'r derbynnydd yn hysbysu cleifion o unrhyw oediad i'w hapwyntiadau.

Roedd rhif ffôn cyswllt y tu allan i oriau ar gael i gleifion ei ffonio pe bai angen triniaeth ddeintyddol arnynt ar frys. Roedd y rhif ffôn yn cael ei arddangos yn glir ar ddrws blaen y practis, roedd wedi'i gynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion, ac roedd ar neges peiriant ateb y practis. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a ddychwelodd holiaduron yn datgan eu bod nhw'n gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth y tu allan i oriau.

Cadw’n iach

Gwelsom fod taflenni hyrwyddo iechyd ar gael i gleifion yn y practis, er mwyn helpu i hyrwyddo'r angen iddynt ofalu am hylendid ac iechyd eu ceg eu hunain.

Dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn credu eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth ddeintyddol, a gwnaeth rhai cleifion sylwadau cadarnhaol ychwanegol a oedd yn dweud bod esboniadau ynglŷn â'u triniaethau yn fanwl a bod unrhyw gwestiynau'n cael eu hateb yn drylwyr gan y deintyddion.

Gofal unigol

Cynhelir y practis mewn tŷ teras sydd wedi'i addasu ac mae wedi'i osod ar ddau lawr. Roedd dwy ystafell driniaeth ar y llawr daear, gyda phedair arall ar lawr cyntaf y practis, a oedd ond yn hygyrch trwy fynd i fyny'r grisiau. Roedd un gris yn arwain at y practis ac roedd y staff yn cynnig cymorth i gleifion a allai fod angen cymorth arnynt wrth fynd i'r adeilad mewn cadair olwyn. Dywedwyd

wrthym y byddai cleifion ag anawsterau symudedd yn cael cynnig apwyntiad gyda'u deintydd eu hun yn un o'r ystafelloedd triniaeth ar y llawr daear.

Mae’r practis yn rhannu gwybodaeth â chleifion am sut i leisio pryder (cwyn) ac roedd systemau ar waith i gleifion roi adborth, a gwnaed hynny trwy ddefnyddio blwch awgrymiadau.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig. Roedd gwybodaeth i gleifion y GIG a chleifion preifat ynglŷn â sut i leisio pryder (cwyn) wedi'i harddangos yn y derbynfeydd. Gwnaethom argymell y dylid diweddaru'r broses gwyno ar gyfer cleifion preifat i gynnwys proses gwyno'r practis ei hun ar gyfer cleifion preifat. Roedd angen rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn y polisi hefyd, gan gynnwys manylion cyswllt AGIC. Gwelsom fod y practis wedi derbyn un cwyn ysgrifenedig ac un cwyn ar lafar a bod y practis wedi cadw manylion y camau a gymerwyd. Roedd hyn yn caniatáu i'r practis adolygu pryderon, cymryd camau i ddatrys unrhyw broblemau, a rhoi adborth i gleifion. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn dysgu o'r pryderon a fynegwyd gyda'r nod o wella arferion a phrofiad y claf.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i weithdrefn gwyno'r practis gynnwys gwybodaeth ar gyfer cleifion preifat ynglŷn â sut i wneud cwyn wrth y practis.***

***Rhaid i'r weithdrefn gwyno ar gyfer cleifion preifat gynnwys y manylion cyswllt cywir ar gyfer Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.***

Gwelsom fod cleifion yn gallu rhoi adborth ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir trwy flwch awgrymiadau yn nerbynfa'r practis. Gwelsom fod un deintydd wedi cynnal arolwg o fodlonrwydd ei gleifion ei hun ac wedi nodi meysydd i'w gwella. Gwnaethom argymell y dylai'r practis ystyried cynnal arolwg o fodlonrwydd cleifion ar draws y practis cyfan. Cytunodd y practis i ystyried yr awgrymiad hwn.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Gwelsom fod y gwasanaeth yn ymroddedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Gwelsom fod adeilad y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, y tu mewn a'r tu allan.**

**Dangoswyd proses drwyadl ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Gwelsom fod angen gwneud gwelliannau i'r broses gofnodi archwiliadau ar gyfer y cyfarpar sterileiddio.**

**Er bod y cyffuriau a'r offer a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu gwirio, gwelsom fod angen gwneud hyn yn fwy rheolaidd.**

**Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i ddangos bod yr offer pelydr-X a'r offer dadheintio'n cael eu defnyddio mewn modd diogel.**

<u>Gofal diogel</u>

Canfuom fod gan y practis drefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles y staff sy’n gweithio yn y practis a phobl sy’n ymweld ag ef.

Roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn ôl pob golwg – y tu fewn a'r tu allan. Yn ystod taith o amgylch yr adeilad, fe welsom fod pob ardal yn lân ac yn daclus heb unrhyw beryglon amlwg.

Gwelsom fod offer diogelwch rhag tân ar gael mewn gwahanol fannau o gwmpas y practis. Gwelsom hefyd tystiolaeth bod gan y practis gontract ar waith i wasanaethu'r offer bob blwyddyn i sicrhau ei fod yn gweithio'n iawn.

Roedd contract ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gynhyrchid gan y practis yn ddiogel. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio mewn cynhwysydd cloadwy pan oedd yn aros i gael ei gasglu gan y cwmni contractio. Gosodwyd offer gwahanu amalgam er mwyn tynnu gronynnau amalgam (math o sylwedd deintyddol sy'n cynnwys mercwri) a geir mewn llenwadau deintyddol o ddŵr gwastraff cyn cael gwared arnynt yn ddiogel. Disgrifiwyd y trefniadau a oedd ar waith gyda'r cyngor lleol ar gyfer cael gwared ar wastraff nad yw’n beryglus (domestig).

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion yn ffeil Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd[1] y practis. Gwelsom nad oedd y ffeil wedi'i hadolygu'n ddiweddar. Gwnaethom argymell y dylai'r practis gynnal asesiad risg manwl o'r holl sylweddau a ddefnyddir yn y practis i sicrhau bod y sylweddau a allai fod yn beryglus wedi cael eu hystyried a'u diogelu'n briodol. Cytunodd y practis i wneud hyn.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis gynnal adolygiad cyflawn o’r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd i sicrhau bod y risg mae sylweddau a ddefnyddir o fewn y practis yn ei pheri wedi cael ei llawn asesu.***

Gwnaethom edrych ar yr holl gyfleusterau clinigol (ystafelloedd triniaeth) yn y practis. Roedd y rhain yn lân ac yn daclus. Roedd y lloriau a'r arwynebau yn yr ystafelloedd triniaeth yn hawdd eu glanhau er mwyn lleihau croes-heintio. Dywedwyd wrthym fod cynlluniau ar waith i adnewyddu dwy o'r ystafelloedd triniaeth hŷn yn 2017 er mwyn cadw safonau yn y practis.

Gosodwyd ystafell ddadheintio ar wahân, ac roedd yn cydymffurfio â'r egwyddorion a nodwyd yn nogfen ganllaw Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1).[2] Roedd yr offer dadheintio yn ymddangos mewn cyflwr da yn ôl pob golwg. Roedd tri pheiriant awtoclaf[3] yn cael eu defnyddio ac roedd tystysgrifau gosod/archwilio ar gael a oedd yn dangos eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom fod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal a bod llyfrau cofnodion yn cael eu cadw, fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, ar gyfer profion ar offer glanhau a sterileiddio, i ddangos eu bod yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom fod gwybodaeth a gofnodwyd mewn rhai o'r llyfrau cadw cofnod yn anghyflawn. Gwnaethom argymell y dylai'r practis ystyried rhoi llyfr cadw cofnod cydnabyddedig ar waith yn gysylltiedig â'r peiriant awtoclaf penodol er mwyn sicrhau bod pob

---

[1] http://www.hse.gov.uk/coshh/

[2] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

[3] Siambr pwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau trwy orfodi ager dirlawn pwysedd uchel arnynt.

gwybodaeth berthnasol yn cael ei chofnodi. Cytunodd y practis i roi hyn ar waith.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl wybodaeth ynglŷn â'r gwiriadau dyddiol o'r awtoclafau'n cael ei chofnodi'n unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.***

Roedd y staff yn dangos proses drwyadl ar gyfer dadheintio, a gwelsom dystysgrifau i ddangos bod staff nyrsio wedi mynychu hyfforddiant ar ddadheintio.

Roedd yr offer yn cael eu cadw mewn bagiau wedi'u selio er mwyn atal croes-heintio. Roedd y dyddiadau ar gyfer defnyddio neu ailbrosesu offerynnau (eu glanhau a'u sterileiddio) wedi cael eu cofnodi ar y pecynnau yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Gwelsom fod y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau yn ddiweddar i nodi meysydd i'w gwella a'u datblygu fel rhan o'r gwaith monitro cyffredinol ar gyfer sicrhau ansawdd.

Gwelsom fod offer a chyffuriau ar gael i'w defnyddio pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu/cwympo). Dywedwyd wrthym fod y cyffuriau a'r offer yn cael eu gwirio gan y deintyddion bob mis. Gwnaethom argymell i'r practis y dylid cynnal archwiliadau bob wythnos (a'u cofnodi) ar gyfer y cyffuriau a'r offer a ddefnyddir mewn achosion brys yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU).[4]Rhoddodd y practis sicrwydd ar lafar y byddai hyn yn derbyn sylw.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis wneud trefniadau priodol i sicrhau bod ganddo system ar waith ar gyfer cynnal archwiliadau rheolaidd ar yr offer brys yn unol â'r safonau ansawdd a amlinellir gan y Cyngor Dadebru (DU).***

Roedd gan staff fynediad hawdd at gyfres o siartiau llif a oedd yn nodi'r camau y dylid eu cymryd, a'r cyffuriau i'w defnyddio, pe bai argyfwng gyda chlaf. Roedd y rhain yn cael eu cadw'n ddiogel mewn waledi plastig, ynghyd â'r

---

[4] Mae'r Cyngor Dadebru (DU) yn bodoli i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil, a chydweithredu.

cyffuriau oedd i'w defnyddio, er mwyn hwyluso mynediad haws mewn argyfwng. Gwelsom gofnodion hyfforddiant a oedd yn dangos bod hyfforddiant y staff mewn adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR) yn gyfredol.

Daethom i'r casgliad bod gan y practis drefniadau ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Mae hyn oherwydd bod yr holl ddogfennau a gwybodaeth ofynnol ynglŷn â defnyddio'r offer pelydr-X yn ddiogel ar gael ac yn gyfredol. Gwelsom dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos bod y deintyddion wedi diweddaru eu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio, a'u bod yn bodloni'r canllawiau a amlinellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Er i ni weld cofnodion a oedd yn dangos bod aelodau staff clinigol eraill wedi cael hyfforddiant ar ymbelydredd ïoneiddio, gwnaethom argymell y dylai'r practis geisio cyngor ynghylch a oedd yr hyfforddiant hwn yn ddigonol, gan ystyried cyfranogiad aelodau'r staff a oedd yn defnyddio offer pelydr-X a chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.[5]

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio yn unol â'r gofynion a amlinellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.***

Gwelsom fod archwiliadau o ansawdd delweddau pelydrau-X wedi cael eu cwblhau'n rheolaidd fel rhan o'r gwaith monitro ar gyfer sicrhau ansawdd. Mae'r archwiliadau hyn yn nodi problemau posibl wrth gynnal sganiau pelydr-X, ac yn dangos lle y dylid gwneud gwelliannau os oes angen.

Roedd gweithdrefn wedi'i sefydlu yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Gwnaethom argymell y dylid diweddaru'r gweithdrefnau diogelu ar gyfer oedolion a phlant er mwyn sicrhau bod y manylion cyswllt yn gywir ac yn gyfredol ar gyfer yr awdurdod lleol perthnasol. Cytunodd y practis i wneud hyn. Roedd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion a gwelsom dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos hyn.

---

[5] http://www.gdc-uk.org/Newsandpublications/Publications/Publications/Continuing%20Professional%20Development%20for%20Dental%20Professionals.pdf

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo y gallent leisio unrhyw bryderon a oedd yn ymwneud â’r gwaith wrth staff uwch y practis, a'u bod yn hyderus y byddai'r rhain yn derbyn sylw.

Gofal effeithiol

Yn ystod trafodaethau â'r prif ddeintyddion, gwelwyd bod y tîm yn ymroddedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Gwelsom fod y practis yn cynnal amrediad o archwiliadau clinigol i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau clinigol i nodi meysydd i'w gwella a gwiriadau ar offer i wneud yn siŵr eu bod yn gweithio'n effeithiol.

Gwnaethom ystyried sampl o 15 o gofnodion deintyddol cleifion er mwyn asesu ansawdd y cofnodion. Roedd cofnodion cleifion ar ffurf papur. At ei gilydd, roedd y nodiadau yn ddigon manwl. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai themâu cyffredin y dylid eu gwella. Roeddent fel a ganlyn:

- Nid oedd y deintyddion wedi nodi defnydd o alcohol a thybaco cleifion bob amser. Byddai hyn yn dangos bod deintyddion wedi asesu cleifion o ran eu risg o ddatblygu canser y geg a'u bod wedi rhoi cyngor ar sut y gellid lleihau'r risg hon.

- Roedd canlyniadau archwiliadau periodontol sylfaenol yn cael eu cofnodi'n anghyson yng nghofnodion y cleifion, ac nid oeddent yn unol â'r canllawiau a argymhellwyd.

- Roedd y cofnodion ar gyfer archwiliadau meinwe feddal, gan gynnwys sgrinio ar gyfer canser, yn gyfyngedig. Dywedwyd wrthym fod hyn yn cael ei wneud ar gyfer pob claf ym mhob apwyntiad, ond nid oedd yn cael ei gofnodi fel archwiliad ar wahân.

- Nid oedd y rhesymau dros y cyfnodau rhwng apwyntiadau cleifion wedi'u cofnodi'n gyson, a oedd yn golygu nad oedd modd cyfiawnhau gwahanol amseroedd ailalw cleifion.

- Roedd y gwaith o gofnodi cydsyniad cleifion i driniaeth yn cael ei wneud yn anghyson. Dywedwyd wrthym y rhoddwyd cydsyniad llafar yn ystod pob apwyntiad ond nid oedd yn cael ei gofnodi bob amser.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion sy'n cael eu cwblhau ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â gofynion rheoliadol a'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.***

Yn ogystal â hyn, nid oedd y rheswm dros gymryd sganiau pelydr-X a chanfyddiadau'r deintydd a gafwyd ganddynt wedi cael eu cofnodi yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

**Yr hyn y mae angen ei wella**

***Rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis sicrhau eu bod yn cofnodi'r rheswm dros gynnal sganiau pelydr-X a'r canfyddiadau yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.***

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Dangoswyd strwythur rheoli ac iddo linellau eglur o adrodd ac atebolrwydd. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan holl dîm y practis. Dywedodd y staff wrthym fod cyfle ar gael iddynt fynychu hyfforddiant perthnasol ac yr oeddent yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y tîm rheoli.**

Mae Deintyddfa P. A. Hawkins ac L. A. Griffiths yn cael ei rheoli gan dri deintydd. Mae'r deintyddion yn cael cefnogaeth tîm sy'n cynnwys dau ddeintydd cyswllt, nyrsys deintyddol a derbynyddion. Cafodd llinellau eglur o adrodd ac atebolrwydd eu disgrifio gan bob un o aelodau tîm y practis. Pan wnaethom nodi meysydd i'w gwella, gwnaeth y practis ddangos parodrwydd ac ymroddiad i fynd i'r afael â'r rhain yn ddi-oed.

Dywedodd y staff a oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth yn eu swyddi gan bob un o aelodau tîm y practis. Gwelsom fod y staff yn bendant ac yn wybodus ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu da o fewn y practis. Gwelsom y cynhaliwyd cyfarfodydd tîm yn rheolaidd yn y practis a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent drafod unrhyw broblemau yn ystod y cyfarfodydd hyn.

Gwelsom fod ystod o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion. Nid oedd y rhan fwyaf o'r polisïau a welsom wedi'u llofnodi gan y staff, ac nid oeddent yn cynnwys dyddiadau adolygu na rhif fersiwn. Roedd hyn yn golygu nad oeddem yn gallu gweld p’un a oedd pob aelod o'r staff wedi darllen a deall y polisïau a'r gweithdrefnau oedd wedi'u sefydlu, na ph’un a oedd y fersiwn ddiweddaraf ar gael. Gwnaethom argymell y dylai'r practis anodi'r holl bolisïau a gweithdrefnau gyda dyddiad yr adolygiad, rhif fersiwn a llofnodion staff.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod ganddo system ar waith ar gyfer adolygu polisïau a gweithdrefnau, a dangos bod y staff wedi cael eu hysbysu am y rhain mewn modd priodol.***

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w swyddi. Gwnaeth y staff gadarnhau hefyd eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y tîm rheoli i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi.

Gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi derbyn arfarniad ar eu perfformiad o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

Canfuom fod deintyddion a staff nyrsio wedi eu cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod yswiriant indemniad ar waith ganddynt.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi derbyn brechiadau rhag Hepatitis B, i amddiffyn eu hiechyd eu hunain ac iechyd cleifion rhag heintiau. Roedd cyngor a chymorth iechyd galwedigaethol ar gael trwy'r bwrdd iechyd.

Roedd deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat. Roedd eu tystysgrifau cofrestru ag AGIC wedi'u harddangos mewn lle amlwg fel sy'n ofynnol dan reoliadau deintyddiaeth breifat. Roedd angen diweddaru un dystysgrif i gynnwys cyfeiriad cywir AGIC. Cytunodd y deintyddion i gysylltu ag AGIC fel bod modd cyflwyno tystysgrifau wedi'u diweddaru. Nid oedd tystysgrifau cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael ar gyfer yr holl ddeintyddion oedd yn gweithio yn y practis. Yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat, mae'n ofynnol i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i chyflwyno o fewn y tair blynedd diwethaf.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i bob deintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat fod yn berchen ar dystysgrif gyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'i chyflwyno i AGIC i'w harchwilio.***

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Neintyddfa P. A. Hawkins ac L. A. Griffiths yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**




Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[6] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[7] Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut

[6] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[7] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau â staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Deintyddfa P. A. Hawkins ac L. A. Griffiths

## Dyddiad yr Arolygiad: 8 Tachwedd 2016

| **Rhif y Dudalen** | **Yr Hyn y Mae Angen ei Wella** | **Rheoliad / Safon** | **Camau Gweithredu'r Practis** | **Swyddog Cyfrifol** | **Amserlen** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| Tudalen 6 | Rhaid i'r practis arddangos rhestr brisiau ar gyfer triniaethau deintyddol preifat i gleifion ei gweld.<br><br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 2* | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'i diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 14<br><br>Y Safonau Iechyd a Gofal, Ebrill | Mae rhestr brisiau ar gyfer triniaethau deintyddol preifat wedi cael ei llunio, ac fe fydd yn cael ei harddangos. | P. Hawkins | Ar unwaith |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2015, Safon 4.2 | | | |
| Tudalen 7 | Rhaid i weithdrefn gwyno'r practis gynnwys gwybodaeth ar gyfer cleifion preifat ynglŷn â sut i wneud cwyn wrth y practis.<br><br>Rhaid i'r weithdrefn gwyno ar gyfer cleifion preifat gynnwys y manylion cyswllt cywir ar gyfer Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 15 | Mae polisi cwyno'r practis wedi cael ei ddiwygio i gynnwys yr holl fanylion perthnasol. | P. Hawkins | Ar unwaith |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| Tudalen 9 | Dylai'r practis gynnal adolygiad cyflawn o'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd i sicrhau bod y risg mae sylweddau a ddefnyddir o fewn y practis yn ei pheri wedi cael ei llawn asesu. | Y Safonau Iechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 2.1 | Mae adolygiad diwygiedig cyflawn yn cael ei gynnal o'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd. | P. Hawkins | Diwedd Chwefror 2017 |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu’r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 10 | Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl wybodaeth ynglŷn â'r gwiriadau dyddiol o'r awtoclafau'n cael ei chofnodi'n unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.<br>*Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Diwygiad 1 – Chwefror 2014, Adran 4* | Y Safonau Iechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 2.4 | Mae'r holl wybodaeth ofynnol mewn perthynas â phrofion dyddiol yn cael ei chofnodi ar hyn o bryd. | P. Hawkins | Cwblhawyd |
| Tudalen 10 | Mae’n rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau priodol i sicrhau bod ganddo system ar waith ar gyfer cynnal archwiliadau rheolaidd ar yr offer brys yn unol â'r safonau ansawdd a amlinellir gan y Cyngor Dadebru (DU).<br>*Y Cyngor Dadebru (DU), Safonau Ansawdd ar gyfer arfer a hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd, Gofal Sylfaenol* | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br>Rheoliad 14<br>Y Safonau Iechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 2.9 | Mae system ar waith ar gyfer gwirio offer brys bob wythnos. | P. Hawkins | Cwblhawyd |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 11 | Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio yn unol â'r gofynion a amlinellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. *Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol* | Y Safonau Iechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 7.1 | Mae hyfforddiant ymbelydredd yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar waith ar gyfer staff. | P. Hawkins | Cwblhawyd |
| Tudalen 12 | Rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion sy'n cael eu cwblhau ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â gofynion rheoliadol a'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. *Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safonau 3 a 4* | Rheoliadau 2008 (fel y'u diwygiwyd) Rheoliad 14 Y Safonau Iechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 3.5 | Mae cofnodion deintyddol bellach yn cael eu cynnal yn unol â'r gofynion rheoleiddiol. | P. Hawkins | Cwblhawyd |
| Tudalen | Rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis sicrhau eu bod yn cofnodi'r | Rheoliadau Ymbelydred | Mae cyfiawnhad dros gynnal sganiau pelydr-X bellach yn cael ei | P. Hawkins | Cwblhawyd |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 13 | rheswm dros gynnal sganiau pelydr-X a'r canfyddiadau yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.<br><br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 4.1* | d Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000<br><br>Y Safonau Iechyd a Gofal, Ebrill 2015, Safon 3.5 | Iawn ddogfennu. | | |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| Tudalen 14 | Dylai'r practis sicrhau bod ganddo system ar waith ar gyfer adolygu polisïau a gweithdrefnau, a dangos bod staff wedi cael eu hysbysu am y rhain mewn modd priodol.<br><br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 6* | Y Safonau Iechyd a Gofal, Ebrill 2015<br><br>Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd | Bydd system yn cael ei dyfeisio ar gyfer adolygu polisïau a hysbysu staff amdanynt mewn modd priodol. | P. Hawkins | Diwedd Chwefror 2017 |
| Tudalen | Rhaid i bob deintydd sy'n gweithio yn | Rheoliadau | Mae deintyddion nad oes eisoes | P. Hawkins | Ar unwaith |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu’r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 15 | y practis sydd hefyd wedi’i gofrestru gydag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat fod yn berchen ar dystysgrif gyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'i chyflwyno i AGIC i'w harchwilio. | Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br>Rheoliad 13, Atodlen 2 | ganddynt dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi ailymgeisio i AGIC. | | |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):** P. A. Hawkins..........................................................................

**Teitl:** Deintydd..........................................................................

**Dyddiad:** 30.11.16..........................................................................